

AQA	City & Guilds	CCEA	OCR	Pearson	CBAC
-----	---------------	------	-----	---------	------

## Gwybodaeth i ymgeiswyr Ar gyfer arholiadau ysgrifenedig – yn weithredol o 1 Medi 2019

**Ysgrifennwyd y ddogfen hon i'ch helpu chi. Dylech ei darllen yn ofalus a dilyn y cyfarwyddiadau. Os nad ydych yn deall unrhyw beth, yn enwedig pa gyfrifiannell i'w defnyddio ac ati, gofynnwch i'r athro.**

<b>A Rheoliadau – Gwnewch yn siŵr eich bod yn deall y rheolau</b>	
1	Rhaid i chi gyrraedd pob arholiad mewn pryd. Efallai na fydd eich gwaith yn cael ei dderbyn os byddwch yn hwyr.
2	Peidiwch â gwneud unrhyw beth annheg nac anonest yn unrhyw ran o'r arholiad.
3	Os byddwch yn ceisio twyllo, neu dorri'r rheolau mewn unrhyw ffordd, gallech chi gael eich diarddel o'ch holl bynciau.
4	<b>Ni chewch</b> fynd â'r canlynol i mewn i'r ystafell arholi: a) <b>nodiadau;</b> b) <b>ffynonellau gwybodaeth technolegol/y gellid eu galluogi gan y we fel iPod, ffôn symudol, chwaraewr MP3/4 neu ddyfais debyg, oriawr glyfar neu oriawr sydd â dyfais storio data arni.</b> <b>Rhaid i unrhyw gasys pensiliau sy'n cael eu cymryd i mewn i'r ystafell arholi fod yn dryloyw.</b> <b>Cofiwch:</b> Mae bod â deunydd yn eich meddiant heb ganiatâd yn torri'r rheolau hyd yn oed os nad ydych yn bwriadu ei ddefnyddio, a gallwch gael eich cosbi a'ch diarddel o bosibl.
5	Os ydych chi'n gwisgo oriawr arddwrn bydd y goruchwyliwr yn gofyn i chi ei thynnu a'i gosod ar eich desg.
6	Peidiwch â defnyddio hylif/beiros neu dâp cywiro, beiros y mae modd eu dileu, uwch-oleuwyr na beiros gel yn eich atebion.
7	Peidiwch â siarad na chyfarthrebu ag ymgeiswyr eraill na thynnu eu sylw unwaith y bydd yr arholiad wedi dechrau.
8	<b>Rhaid i chi beidio</b> ag ysgrifennu deunydd amhriodol, anwedus na sarhaus.
9	Os byddwch yn gadael yr ystafell arholi heb oruchwyliaeth cyn diwedd yr arholiad, ni fyddwch yn cael dod yn ôl i mewn i'r ystafell.
10	Peidiwch â benthg yr unrhyw beth gan ymgeisydd arall yn ystod yr arholiad.
<b>B Gwybodaeth – Gwnewch yn siŵr eich bod yn mynychu eich arholiadau a'ch bod yn dod â'r hyn sydd ei angen arnoch</b>	
1	Dylech wybod dyddiad ac amser pob un o'ch arholiadau. Dylech gyrraedd o leiaf ddeng munud cyn dechrau pob arholiad.
2	Os byddwch yn cyrraedd yn hwyr ar gyfer arholiad, yna rhowch wybod i'r goruchwyliwr sy'n gyfrifol am yr arholiad.
3	Os byddwch yn cyrraedd fwy nag awr ar ôl amser dechrau swyddogol yr arholiad, efallai na fyddwch yn cael sefyll yr arholiad hwnnw.
4	Ewch â dim ond y beiros, pensiliau, dilewyr ac unrhyw offer arall y mae eu hangen arnoch gyda chi i'r ystafell arholi.
5	<b>Rhaid</b> i chi ysgrifennu'n glir ac mewn inc du. Dim ond ar gyfer diagramau, mapiau, siartiau ac ati y gallwch ddefnyddio pensiliau neu inciau lliw oni nodir yn wahanol yn y cyfarwyddiadau ar flaen y papur cwestiynau.
<b>C Cyfrifiannellau, Geiriaduron a Gwirwyr Sillafu Cyfrifiadurol</b>	
1	Gallwch ddefnyddio cyfrifiannell oni bai y dywedir wrthy ch fel arall.
2	Os byddwch yn defnyddio cyfrifiannell: a) gwnewch yn siŵr ei bod yn gweithio'n iawn; gwnewch yn siŵr bod y batris yn gweithio'n iawn; b) cliriwch unrhyw beth sydd wedi'i storio ynddi; c) tynnwch unrhyw rannau megis casys, caeadau neu gloriau sydd â chyfarwyddiadau neu fformiwla'u argraffedig arnynt; ch) peidiwch â dod ag unrhyw gyfarwyddiadau gweithredu na rhaglenni parod i mewn i'r ystafell arholi.
3	Peidiwch â defnyddio geiriadur na gwiriwr sillafu cyfrifiadurol oni ddywedir yn wahanol wrthy ch.
<b>Ch Cyfarwyddiadau yn ystod yr arholiad</b>	
1	Gwrandewch ar y goruchwyliwr bob amser. Dilynwch ei gyfarwyddiadau bob amser.
2	Dywedwch wrth y goruchwyliwr ar unwaith: a) os ydych yn credu nad yw'r papur cywir neu'r holl ddeunyddiau sydd wedi'u rhestru ar flaen y papur wedi'u rhoi i chi; b) os nad yw'r papur yn gyflawn neu os yw'r print yn wael.
3	Darllenwch a dilynwch gyfarwyddiadau'r papur cwestiynau a/neu'r llyfryn ateb yn ofalus.
4	<b>Pan fydd y goruchwyliwr yn dweud wrthy ch am wneud hynny, ysgrifennwch y manylion angenrheidiol i gyd ar flaen y papur cwestiynau a/neu'r llyfryn ateb</b> cyn dechrau'r arholiad. Gwnewch yn siŵr eich bod yn nodi'r manylion hyn ar unrhyw daflenni ateb ychwanegol rydych chi'n eu defnyddio.
5	Cofiwch ysgrifennu eich atebion yn y manau priodol ar y llyfryn ateb.
6	Gwnewch eich gwaith bras ar y papur arholiad penodol yn unig. Tynnwch linell drwyddo a'i roi i mewn gyda'ch atebion. Gwnewch yn siŵr eich bod yn ychwanegu eich manylion ymgeisydd ar unrhyw daflenni ateb ychwanegol y byddwch yn eu defnyddio ar gyfer gwaith bras.
<b>D Cyngor a chymorth</b>	
1	Ar ddiwrnod yr arholiad, os ydych yn teimlo'n sâl ac y bydd hynny neu unrhyw reswm arall yn debygol o effeithio ar eich gwaith, dywedwch wrth y goruchwyliwr.
2	Yn ystod yr arholiad, codwch eich llaw os ydych yn teimlo: a) bod genny ch broblem a ddim yn siŵr beth i'w wneud; b) yn sâl; c) bod angen rhagor o bapur arnoch.
3	Ni ddylech ofyn am eglurhad o'r cwestiynau, ac ni fyddwch yn cael ateb.
<b>DD Ar ddiwedd yr arholiad</b>	

1	Os byddwch wedi defnyddio mwy nag un llyfryn ateb a/neu unrhyw daflenni ateb ychwanegol, rhaid eu rhoi yn y drefn gywir. Rhowch unrhyw daflenni ateb ychwanegol rhydd y tu mewn i'ch llyfryn ateb. Gwnewch yn siŵr eich bod yn ychwanegu eich manylion ymgeisydd ar unrhyw daflenni ateb ychwanegol y byddwch yn eu defnyddio.
2	Peidiwch â gadael yr ystafell arholi hyd nes y bydd y goruchwyliwr yn dweud y cewch wneud hynny.
3	Peidiwch â mynd ag unrhyw ddeunyddiau arholiadau gyda chi o'r ystafell arholi. Mae hyn yn cynnwys y papur cwestiynau, llyfrynau ateb, p'un ai heb eu defnyddio ai peidio neu unrhyw ddeunydd arall a ddarparwyd ar gyfer yr arholiad.